



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

Adolygiad Prosiect Safle Ffocws

Alwyn Phillips

Pen-y-Gelli

Ffordd Bethel

Caernarfon

Gwynedd

LL55 1UH

Paratowyd gan:

Rhidian Jones

Ar ran

Kite Consulting

Dunston Business Village

Dunston

Staffordshire

ST18 9AB

Dyddiad: Mehefin 2017

Rhif ffôn: 07889 182 364

E-bost: rjlivestocksystems@btinternet.com



Kite

Cynnwys

1.0	Crynodeb	1
1.1	<i>Manylion am y fferm</i>	
1.2	<i>Amcanion allweddol y prosiect</i>	2
1.3	<i>Yr hyn y mae'r prosiect wedi'i gyflawni</i>	2
1.4	<i>Manylion y prosiect.....</i>	3
1.5	<i>Sylwadau gan y ffermwr</i>	7
2	Adolygiad Busnes	8
2.1	<i>Data fferm y gellir ei gymharu.....</i>	8
2.2	<i>Effaith bosibl y prosiect ar y busnes</i>	9
3	Adolygiad o'r Prosiect.....	10
3.1	<i>Dadansoddiad SWOT</i>	10
3.2	<i>Buddion i fusnesau defaid eraill Cymru</i>	10
3.3	<i>Alinio â nodau strategol sectorau defaid</i>	11
4	Effaith ar y diwydiant	11
4.1	<i>Effaith ar fusnes unigol</i>	11
4.2	<i>Effaith ar y diwydiant yn ehangach.....</i>	11
4.3	<i>Effaith ar themâu blaenoriaeth a thrawsbynciol Llywodraeth Cymru.....</i>	11
5	Tîm Prosiect.....	12

1.0 Crynodeb

1.1 Manylion am y fferm

Mae Pen-y-Gelli yn fferm ar dir isel, 1 km i'r Gogledd Ddwyrain o Gaernarfon ar ffordd y B4366. Mae 44 hectar (110 erw) yn eiddo i'r ffermwr ac mae'n rhentu 10 hectar (25 erw) (yn rhentu 16 hectar cyn 2017). Mae'r tir rhwng 30m a 60m uwchben lefel y môr ac yn wynebu'r Gogledd yn gyffredinol er bod y tir yn eithaf gwastad heb unrhyw anawsterau o ran gwaith tractor. Mae "cors" yn rhan o gyfanswm arwynebedd y tir ac mae tua 6 hectar (15 erw).

Mae dwy ddiadell o ddefaid ar y fferm, un ddiadell o ddefaid pur ac un ddiadell o ddefaid magu. Nid yw wedi prynu defaid i mewn ers 1989 ac mae ganddo lefel uchel o Fioddiogelwch.

- Diadell o 200 o ddefaid Poll Dorset sy'n wyna'n gynnar yn Rhagfyr/Ionawr ac yn cynhyrchu ŵyn wedi'u pesgi o ganol Ebrill ymlaen.
- Diadell o 200 o famogiaid Texel y cofnodir eu perfformiad, sy'n cynhyrchu ŵyn wedi'u pesgi ar borfa yn Ebrill a thua 35 y flwyddyn o hyrddod pur i'w gwerthu i ddiadelloedd masnachol. Cofnodwyd perfformiad y ddiadell Texel ar system laswellt ers y 1980au a rhoddir dwysfwyd iddynt cyn wyna'n unig.

Yn ogystal â'r defaid mae buches fagu fach o 20 o fuchod, sy'n cynhyrchu gwartheg stôr.

Mae'r perchennog yn ffermwr defaid blaenllaw sydd wedi bod yn cofnodi perfformiad am dros 30 mlynedd, yn sganio (CT) ŵyn hyrddod ers 1996 (mae wedi sganio mwy o hyrddod nag unrhyw fridiwr Texel arall), ac mae wedi bod yn bridio defaid ar systemau glaswelltir am dros 25 mlynedd. Mae hyn wedi dod yn ffasiynol yn y blynyddoedd diwethaf gyda nifer o fridwyr pedigri bellach yn honni eu bod yn magu defaid ar systemau dwysfwyd isel/porthiant uchel, sy'n fwy addas i ddiadelloedd masnachol a reolir mewn system debyg.



Alwyn Phillips



Pen y Gelli

Amcanion Busnes:

- Cynyddu allbwn y ddiadell o 25% heb gynyddu gorbenion
- Gwneud mwy o ddefnydd o'i dir ei hun a lleihau faint o dir mae'n ei rentu
- Sefydlu system wartheg sy'n ychwanegu at ddiadell o ddefaid ar borfa

1.2 Amcanion allweddol y prosiect

Mae'r busnes wedi magu defaid ar systemau porthiant uchel ers y 1980au heb lawer o ddwysfwyd ychwanegol. Un o brif amcanion y prosiect hwn yw nid yn unig i dyfu mwy o borfa ond i dyfu glaswellt o ansawdd llawer uwch er mwyn gwneud y mwyaf o botensial geneteg y ddiadell. Ar hyn o bryd teimlir bod y ddiadell dan anfantais o'i chymharu â diadelloedd eraill y cofnodir eu perfformiad gyda mewnbwn uwch o ddwysfwyd. Gyda glaswellt o ansawdd uchel iawn ar gael drwy'r flwyddyn yna gellir cau'r bwlch rhwng cyfraddau twf yn sylweddol.

Mae tir yn brin yn yr ardal hon a phrisiau rhentu hyd at £200/erw (£500/ha) yn gyffredin am y tir gorau. Mae cynyddu cyfradd stocio o 20-25% yn un amcan y gellir ei chyflawni trwy dyfu a defnyddio 20-25% yn fwy o laswellt o ansawdd uwch. Ar y fferm hon byddai hynny'n cyfateb i tua 100 o famogiaid ond mae niferoedd hyd yn oed yn uwch yn bosibl wrth i fwy o'r fferm gael ei hisrannu a'i rheoli yn y system bori newydd. Yn 2017 rhentwyd 15 erw (6 hectar) yn llai gan wneud arbediad damcaniaethol (yn y farchnad agored) o tua £2,250 (@ £150/erw) yn ogystal ag Elw Gros uwch yn sgil mwy o famogiaid. Mae effeithiau ariannol cadarnhaol sylweddol y gellir eu hehangu ar ffermydd mwy.

1.3 Yr hyn y mae'r prosiect wedi'i gyflawni

Mae'r prosiect wedi bod yn llwyddiant mawr gyda'r Elw Gros ychwanegol o'r 100 o famogiaid yn dwyn ffrwyth gyda'r posibilrwydd o hyd yn oed mwy o ddefaid yn y dyfodol. Gan nad yw'n prynu defaid i mewn, y mamogiaid ychwanegol yw'r wŷyn beinw a gadwyd a rhai o'r mamogiaid hŷn felly ni chyrhaeddwyd cynhyrchiant llawn eto.

Gellir sicrhau arian yn ôl am yr offer o fewn dwy flynedd sy'n Enillion ar Fuddsoddiad arbennig o'i gymharu â buddsoddiadau eraill yn y fferm mewn peiriannau, offer ac adeiladau. Mae cyllideb rannol wedi dangos bod yr enillion blynyddol ar y buddsoddiad hwn tua £5,582 gan ddefnyddio data Elw Gros blaenorol fel dull cymharu. Dylid rhagori ar hyn yn rhwydd yn ymarferol oherwydd dylai'r Elw Gros y ddafad wella hefyd ond nid oes digon o ddata ar gael ar hyn o bryd i fesur hyn.

Hefyd llwyddiant arall yw bod hon yn neges gadarnhaol i ysgogi ffermwyr, hen ac ifanc o'r posibilrwydd o gynhyrchu cig ar laswellt, o ran cynyddu allbwn, lleihau costau a gwneud eich fferm yn fwy heb orfod prynu neu rentu tir, gyda'r budd yn aml heb ei gostio'n llawn, gan arwain yn aml at "ryfel bidio" i sicrhau tir o ansawdd a photensial twf ansicr.

1.4 Manylion am y Prosiect

Dechreuodd y prosiect yn 2016 gyda'r nod o gynyddu twf a defnydd o laswellt, gan arwain at gynydd o ran cyfradd stocio o tua 25%, neu ar y fferm hon, cynnydd o 400 o ddefaid magu i 500. Yn ogystal â swm uwch o ddeunydd sych a ddefnyddiwyd dylai ansawdd y glaswellt ar gyfartaledd hefyd gynyddu gan y bydd y borfa'n cael ei phori ar werth D uwch (ac felly ME uwch). O ystyried y ddau ffactor hyn yn ddamcaniaethol bydd cynnydd

mewn ME/hectar o tua 84,000MJ (8,000 kgDM/ha x 10.5MJ/kgDM) i 115,000 MJ (10,000 kgDM/ha x 11.5MJ/kgDM, cynnydd mewn MJ/ha o 31,000 neu 37%.

Y dull a ddefnyddiwyd i gyflawni'r nod hwn oedd addasu'r fferm o stocio sefydlog i system bori cylchdro, gan ddefnyddio offer ffensio trydan pwrpasol gan "Kiwitech". Datblygwyd yr offer a'r system "Technograzing" yn Seland newydd gan Harry Weir a bellach mae ar gael yn fasnachol yn y Deyrnas Unedig drwy James Daniels o "Precision Grazing Ltd"

Yn ogystal â chynyddu cyfradd stocio a niferoedd defaid roedd y prosiect hefyd yn ceisio tynnu sylw at ystyriaethau ymarferol isrannu ffermydd, maint lleiniau, math o offer, cyflenwad dŵr ayb yn ogystal â hyrwyddo manteision mesur glaswellt a neilltuo glaswellt ar gyfer da byw'n gywir iawn yn unol â'u gofynion. Ar gyfer y pwynt olaf hwn defnyddiwyd rhaglenni meddalwedd fel FARMAX - mae James Daniels yn un o nifer fach o ymgynghorwyr yn y Deyrnas Unedig sy'n gyfarwydd â'i defnyddio.

Yn 2016 rhannwyd 24 hectar yn lleiniau 1 hectar gan ddefnyddio amrywiaeth o offer parhaol a dros dro. Prynwyd offer i isrannu 12 hectar arall yn y dyfodol. Rhagwelir y gellid rhannu'r fferm gyfan fel hyn yn y dyfodol a gallai'r system wartheg newydd i ganiatáu i'r gwartheg ddilyn y defaid ar sail system gylchdro, a thrwy hynny, wella'r defnydd o wneir o'r borfa hyd yn oed ymhellach.




Dechrau isrannu- 24 x llain 1 hectar. Gwifren sbring hydwyth iawn i allu croesi ffensys



Costau sefydlu ar gyfer y 24 hectar cyntaf

Eitem	Cost heb gynnwys TAW £	Sylw
System dylunio	600	Dadansoddiad fferm, cyllideb porthiant, dylunio, mapio
System ddŵr	1,613	25mm peipen MDPE, ffitiadau, hydrantau a 4 x cafn symudol 120l
Ffensio	3,840	3 x weiren ar gyfer defaid, pyst coed, weiren ddu HT, pyst gwydr ffibr, inswleiddwyr, ceblau tanddaear, switshis a chysylltyddion
Ffens drydan	650	15J – ffens drydan, gosod a rhoi yn ei le
Llafur	1,500	Gosod, profi a chomisiynu'r system
Cyfanswm	8,203	Cost blaendal £610/blwyddyn dros gyfnod 0 10 mlynedd + llog £305/blwyddyn @ 5%
Cost/hectar (erw)	341.79 (136.72)	

Costau eraill

Talwyd ffi ymgynghori o £215/mis. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio meddalwedd FARMAX, dehongli data rheolaidd a ddarparwyd am ansawdd y glaswellt a niferoedd da byw yn ogystal â nodyn cynghori bob mis gyda phwyntiau gweithredu i Alwyn eu dilyn. Roedd y rhain yn manylu'n sylweddol ynghylch sut i reoli'r borfa/porthiant ar gyfer grwpiau o ddefaid a goblygiadau gwneud hynny yn nhermau twf y borfa fel y dangosir yn y graffiau FARMAX isod.






Parhaodd y prosiect yn 2017 ac mae'n dal i fynd. O 8 Mai 2017 prynwyd mwy o offer i isrannu 12 hectar arall i besgi wŷn wedi'u diddyfnu'n fwy effeithlon.

System ffensio a dyfrhau Kiwitech



Pyst gwydr ffibr hyblyg



Offer arloesol ar gyfer gosod ffens



**Cafn dŵr cludadwy
Cyllideb rannol**



Ffitiadau dŵr yn cael eu gwthio i mewn

Mae cyllideb rannol yn cyfrifo'r enillion, cadarnhaol neu negyddol yn deillio o wneud newidiadau i fusnes. Mae incwm ychwanegol a chostau a arbedwyd yn ffigwr cadarnhaol tra bod costau ychwanegol ac incwm yr eid hebddo ar yr ochr negyddol. Mae angen lledaenu costau buddsoddi yn yr offer dros oes ddisgwyliedig yr offer.

Colledion blynyddol (costau)	£	Enillion blynyddol (buddion)	£
Incwm yr eid hebddo		Incwm ychwanegol	
		Elw Gros o 100 o ddefaid ychwanegol @ £48.27/hd	4,827
		5 o ŵyn hyrddod ychwanegol wedi'u gwerthu @£400 (ar sail gwerth ŵyn tew)	2,000
Costau ychwanegol		Costau a arbedwyd	
Offer ar gyfer 24 ha @ £342.ha dros 10 mlynedd @5%	915	6 ha llai tir ar rent	2,250
Ffi ymgynghori £215/mth ¹	2580		
	3,495		9,077
Budd blynyddol²	5,582		

- 1 Mae wedi bod yn werth talu'r ffi ymgynghori yn ystod amserlen y prosiect ond unwaith yr ymglyfarwyddir â'r prosiect gellir ei leihau gan gael cyngor wedi hynny ar sail ad hoc.
- 2 Fel y dywedwyd yn flaenorol roedd yna hefyd gostau dylunio a gosod cychwynnol o £2,100

1.5 Sylwadau gan y ffermwr – Alwyn Phillips

Mae porthiant o ansawdd uchel yn allweddol i sicrhau'r perfformiad gorau gan ddefaid. Os byddwch yn eu porthi'n wael cewch ddefaid gwael! Mae rheolaeth dda o borfa'n gallu helpu i wneud y mwyaf o botensial ein geneteg ragorol.

Mae gan fy nefaid Texel un o'r gwerthoedd bridio tybiedig uchaf o ran cyhyrau yn y brid - yr 1% uchaf ar gyfer cyhyrau yw 3.49mm ac mae'r hyrddod gorau ar 7.15mm - ond ni allaf gystadlu â'r gwerth bridio tybiedig tyfiant pwysau 20 wythnos mewn cymhariaeth ag ŵyn ar borthiant dwysfwyd parhaus. Er mwyn gwella cyfradd dyfu fy ŵyn, roeddwn yn gwybod bod rhaid i mi wella fy rheolaeth o laswelltir er mwyn iddynt gael porfa o'r ansawdd gorau. Bydd hyn yn rhoi cyfle i mi werthu mwy o hyrddod bridio yn ogystal â'r incwm ychwanegol drwy gynyddu maint y ddiadell.

Mae ffermydd ar dir isel fel Pen y Gelli dan anfantais oherwydd y dewis cyfyngedig o daliadau amgylcheddol gan Glastir. Roedd hyn yn golygu bod yn rhaid i mi chwilio am ffyrdd eraill i wneud y fferm yn fwy cynhyrchiol, cynyddu Allbwn a gwneud y busnes yn fwy cadarn ar gyfer dyfodol ansicr.

2 Adolygiad Busnes

2.1 Effaith bosibl y prosiect ar y busnes

Mae'r prosiect hwn wedi dangos bod buddsoddi mewn seilwaith i allu gweithredu system bori cylchdro yn werthfawr iawn gan sicrhau enillion ar fuddsoddiad ac enillion ariannol blynyddol cadarnhaol. I Alwyn Phillips ym Mhengelli mae hyn wedi golygu-

1. Cadw 100 o famogiaid ychwanegol (o leiaf), cynnydd o 25% gyda chynnydd cyfatebol yn Elw Gros y ddiadell. Mae hyn yn deillio o dyfu/defnyddio 25% yn fwy o laswellt.
2. Potensial i leihau costau dwysfwydydd gan y bydd y glaswellt o ansawdd uwch am y rhan fwyaf o'r flwyddyn a thrwy hynny, lleihau gofynion dwysfwyd, er enghraifft yng nghyfnod olaf beichiogrwydd.
3. Potensial i leihau costau gwneud silwair (contractwyr, tanwydd ayb) gan y bydd y gallu i neilltuo glaswellt yn gywir i ofynion yr anifeiliaid drwy gydol y flwyddyn yn golygu y bydd angen llai o silwair.
4. Potensial i werthu mwy o hyrddod bridio gan nad yw eu potensial geneteg (seiliedig ar laswellt) wedi'i nodi'n llawn ar hyn o bryd. Pan fydd glaswellt o ansawdd uwch ar gael bydd eu perfformiad a'u EBVs yn gwella ac yn eu gwneud yn fwy deniadol i brynwyr.





3 Adolygiad o'r Prosiect

3.1 Dadansoddiad SWOT

CRYFDERAU	<ul style="list-style-type: none"> • Mae defaid wedi'u bridio ar gyfer systemau porthiant uchel/dwysfwyd isel ers y 1980au • Perfformiad unigol da wedi'i sicrhau yn y gorffennol • Mae gan Alwyn Phillips frwdfrydedd i wella'r system, proffidioldeb, effeithlonrwydd a chadernid ymhellach
GWENDIDAU	<ul style="list-style-type: none"> • Diffyg opsiynau ar gyfer taliadau amgylcheddol • Graddfa'n cyfyngu ar elw'r fferm • Opsiynau cyfyngedig ar gyfer ehangu yn yr ardal oherwydd nad oes llawer o dir ar gael a chost tir rhent • Y ddiadell ddim yn cyfleu gwir botensial genetig
CYFLEOEDD	<ul style="list-style-type: none"> • Cynyddu cynhyrchiant a defnydd o laswellt • Cynyddu cyfradd stocio • Gwella GM y famog trwy leihau costau amrywiol • Cynyddu GM/hectar o leiaf £100/ha • Rhentu llai o dir • Gwerthu mwy o hyrddod bridio
BYGYTHIADAU	<ul style="list-style-type: none"> • Brexit ac ansicrwydd y fasnach cig defaid y tu hwnt i 2020 • Tywydd eithafol mewn ardal â lefel uchel o law • Problemau iechyd defaid gyda chyfradd stocio uwch

3.2 Buddion i fusnesau defaid eraill yng Nghymru

O bersbectif trosglwyddo gwybodaeth mae'r prosiect hwn wedi bod yn fuddiol eisoes yn nhermau diwrnodau agored ar y fferm a bydd yn parhau i wneud hynny yn y dyfodol. Bydd nifer o fusnesau ffermio defaid yng Nghymru'n elwa ar ganfyddiadau'r prosiect. Mae'r egwyddorion, y technegau a'r offer hefyd yr un mor berthnasol i gynhyrchu eidion neu laeth.

Gellir ehangu'r system ar gyfer ffermydd mwy er bod y buddion efallai'n fwy perthnasol i unedau bach i ganolig eu maint, lle mae tir yn brif ffactor sy'n cyfyngu. Gall ffermydd mwy ddal i elwa ond efallai bod mwy o opsiynau ganddynt ar gyfer ffynonellau incwm amgylcheddol neu arallgyfeirio, a gallant sicrhau incwm addas o'r fferm heb orfod cynyddu'r gyfradd stocio.

O safbwynt amgylcheddol bydd cadw mwy o stoc a chynhyrchu mwy o Kg o gig i bob hectar yn lleihau'r ôl troed carbon i bob kg a gynhyrchir. Hefyd, gyda glaswellt o ansawdd uwch (a mwy o laswellt ar gael ar hyd y flwyddyn) ni fydd cymaint o alw am silwair ac am ddwysfwydydd ategol. Bydd y ddwy ystyriaeth hon yn lleihau costau a'r effaith amgylcheddol, tanwydd, costau cludo ayb y system.

3.3 Alinio â nodau strategol sectorau defaid

Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at Gynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Diwydiant Cig Coch Cymru 2015-2020; yn benodol, mewn perthynas â'r-

- ***Flaenoriaeth Strategol "Gwella effeithlonrwydd cynhyrchu (a thrwy hynny gynyddu cyflenwad o ansawdd) gan gynnal amgylchedd a thirwedd Cymru"***
- ***Nod Strategol 2- "Cynyddu cyfraniad sector cig coch Cymru i Allbwn Amaethyddol Cymru" –Camau penodol***
- ***"Datblygu rhaglenni newydd yn canolbwyntio ar fusnes i wella rheolaeth, effeithlonrwydd a phroffidioldeb busnesau cig coch Cymru"***
- ***"Sefydlu dulliau a fydd yn sicrhau cymaint â phosibl o allbwn o systemau glaswellt a dibynnu llai ar borthiant sy'n cael ei brynu (fewnforio)".***

Mae llwyddiant y prosiect wedi golygu bod y busnes yn fwy proffidiol oherwydd y cynnydd yn allbwn y fferm heb gynnydd sylweddol mewn gorbenion. Mae'r buddsoddiad wedi dangos enillion blynyddol cadarnhaol ac y bydd y system yn talu amdani ei hun yn gyflym. Bydd gan y busnes ôl troed carbon is fesul Kg o gig oen a gynhyrchir a bydd yn fwy cadarn i wrthsefyll effeithiau hinsawdd wleidyddol ansicr.

4 Effaith ar y diwydiant

4.1 Effaith ar fusnes unigol

Mae'r gyllideb rannol wedi dangos enillion blynyddol cadarnhaol o tua £6,000 gydag enillion uwch yn bosibl. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd yn GM y fferm o £125/hectar.

4.2 Effaith ar y diwydiant yn ehangach

Ar hyn o bryd mae llawer o ddi-ddordeb mewn gwella rheolaeth glaswellt a gweithredu systemau pori cylchdro. Mae'r prosiect wedi dangos potensial ar y fferm hon ac nid oes rheswm pam na allai busnesau fferm eraill weithredu system debyg.

4.3 Effaith ar themâu blaenoriaeth a thrawsbynciol Llywodraeth Cymru

Newid hinsawdd

Mae dyletswydd gyfreithiol ar lywodraeth y DU i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ar draws amaethyddiaeth o 80% o lefelau 1990, erbyn 2050 (hefyd mae targed dros dro i'w lleihau i 11% erbyn 2020). Mae gan amaethyddiaeth rôl allweddol i gyflawni hyn. Nid yw Ôl Troed Carbon wedi'i gyfrifo eto. Fodd bynnag, trwy gynyddu allbwn y fferm a lleihau dwysfwd bydd Pengelli wedi lleihau ei heffaith ar yr hinsawdd.

Iechyd a Lles Anifeiliaid

Mae risg o gynyddu rhai problemau iechyd fel cloffni a gastro-enteritis parasitig wrth gynyddu dwysedd stoc, yn enwedig ar ffermydd defaid. Fodd bynnag, mae'n cael ei dderbyn yn gyffredinol y bydd systemau pori cylchdro, o'u rheoli'n briodol, yn lleihau nifer o'r problemau hyn trwy ddarparu porthiant o ansawdd uchel (lefel uchel o ME a Phrotein Crai) fydd yn helpu i wella imiwnedd anifeiliaid. Hefyd mae symud stoc i borfa ffres yn rheolaidd yn well na stocio sefydlog ar gyfer nifer o afiechydon yn cynnwys cloffni.

Cenedlaethau'r Dyfodol

Un o'r pethau sy'n rhwystro'r genhedlaeth nesaf o ffermwyr rhag cael mynediad i'r diwydiant defaid yng Nghymru yw'r tir sydd ar gael gan nad ydynt yn gallu prynu tir ac yn aml rhaid iddynt gystadlu yn erbyn busnesau sydd wedi hen sefydlu er mwyn rhentu tir. Mae tyfu a defnyddio mwy o laswellt fesul hectar, cynyddu dwysedd stocio ac allbwn y fferm yn mynd beth o'r ffordd tuag at leihau'r broblem hon. Hefyd, er nad yw'n syniad newydd, ni fu gan bori cylchdro erioed fwy o ddewis o offer, meddalwedd a dyfeisiau mesur glaswellt sydd oll yn ffactorau sy'n denu unigolion galluogi i'r diwydiant.

Yr Amgylchedd Naturiol

Gallai'r system hon ganiatáu cynhyrchiant uwch o'r tir gorau ar y fferm tra gellid defnyddio ardaloedd mwy ymylol ar gyfer mesurau amgylcheddol.

Trechu Tlodi

Trwy fod yn fwy proffidiol, gall ffermydd ailfuddsoddi'r arian ychwanegol yn ôl yn y busnes. Mae hyn yn arwain at wario mwy o arian yn y cylch gyda chyflenwyr ar gyfer y busnes, gan arwain at gadw swyddi mewn cymunedau lleol.

lechyd a Diogelwch

Mae system bori cylchdro'n golygu ei bod yn bosibl cadw llygad ar y stoc ayb a'u symud yn rhwydd a chyflym. Mae hyn yn rhyddhau amser i wneud agweddau eraill ar y fferm sy'n aml yn cael eu hesgeuluso, fel gwaith papur a materion lechyd a Diogelwch.

5 Tîm Prosiect

Alwyn Phillips, ffermwr, Pengelli

Gethin Davies ac Emyr Owen, Cyswllt Ffermio

James Daniels, Precision Grazing Ltd